TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 11 Rhagfyr 2019

Cardiau teithio rhatach ar fws

Diolch i chi am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 11 Tachwedd 2019. Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani wedi cael ei nodi isod:

1. **Nifer y cardiau teithio rhatach sydd wedi'u rhoi i bobl hŷn Cymru a'r cyfanswm sy'n ddilys ar 1.9.2019 (neu'r dyddiad blaenorol agosaf lle mae cofnodion ar gael).**

Ar hyn o bryd, mae 790,981 o gardiau bws rhatach ac nid yw tua 345,362 o'r rheini wedi'u defnyddio yn y 12 mis diwethaf, sy'n awgrymu bod 445,619 o gardiau gweithredol.

b) Nifer y cardiau teithio newydd a gafodd eu dosbarthu cyn 1.11.2019.

Roedd Trafnidiaeth Cymru wedi dosbarthu 400,448 o geisiadau erbyn 1 Tachwedd 2019. Hyd yma (11 Rhagfyr 2019), mae Trafnidiaeth Cymru wedi dosbarthu 520,299 o geisiadau.

c) Nodwch y corff ac/neu'r awdurdod sy'n gyfrifol yn gyfreithiol ac sydd felly'n atebol am adennill costau (hy, costau bws) unrhyw unigolyn y mae ei gerdyn wedi'i ganslo ar 21.12.2019 cyn darparu cerdyn newydd dilys oherwydd camweinyddu TrC.

Cyfrifoldeb y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yw'r cynllun teithio rhatach yng Nghymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn helpu i newid yr holl gardiau bws gwyrdd. Rydym yn hyderus y bydd deiliaid y cardiau presennol sydd wedi gwneud cais yn ystod y ddau fis diwethaf yn derbyn cerdyn newydd cyn 31 Rhagfyr 2019. Byddwn yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod holl ddeiliaid y cardiau presennol yn gallu parhau i deithio. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gostau o'r fath hyd yma.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru